Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod Bwrdd 16 Ionawr 2020

Yn bresennol:

Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Huw Foster Evans (HFE)
Claire Williams (CW) (cyrraedd 10:40)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP) (drwy linc fideo) (gadawodd am 12:30)
Davina Payne (DP) (drwy linc fideo)
John Graystone (JG)
Rosemary Jones OBE (RJ)
Paul Marshall (PM)
Olivia Stemmer (OS) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso, gwrthdaro buddiannau, cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a chadarnhau cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi

Agorodd SD y cyfarfod gan groesawu pawb a rhannu ymddiheuriadau gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru.

Cytunodd y bwrdd ar y diwygiadau canlynol i'r cofnodion:

- **Nodi bod Martin Price wedi ymuno drwy linc fideo**
- **Diwygio cofnodion Rhanddeiliaid a'r Undebau i gynnwys yr undeb neu ysgol a gynrychiolwyd gan y rhanddeiliaid**
- **Ychwanegu at gofnodion yr Undebau bod yr Undebau wedi'u gwahodd i gyflwyno'u darpariaethau i'w cymeradwyo gan yr Academi Arweinyddiaeth**

Cytunwyd bod y log gweithredu yn gywir **a chytunwyd i beidio â gwahodd Tegwen Ellis i** rannu'r gwaith ymchwil sydd ganddi ar y gweill gyda'r Bwrdd ar hyn o bryd.

Aeth y bwrdd ati i barhau'r drafodaeth ar Gonsortiwm y Tair Cenedl a'i ymwneud â Lloegr. **Cytunodd HFE i gysylltu â Tanya Wigfall er mwyn nodi swyddog cyfatebol posibl yn Llywodraeth Lloegr.**

2. Trosolwg o Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)

Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan RJ ar ganlyniadau profion PISA 2018.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd JG faint o ysgolion sy'n gwrthod cymryd rhan yn y profion PISA ac eglurodd RJ fod tua 85% o ysgolion yn gwrthod cymryd rhan
- Gofynnodd PM sut bydd y cwricwlwm yn newid ar gyfer y garfan nesaf o fyfyrwyr sy'n sefyll y profion PISA ac eglurodd RJ fod profion TGAU wedi cychwyn dilyn fformat PISA ac y bydd y math hwnnw o gwestiynau'n cael eu cynnwys yn y strwythur newydd ar gyfer TGAU
- Gofynnodd JG sut oedd adran ddarllen PISA wedi'i brofi. Eglurodd RJ ei fod yn ymwneud â chanfod a deall gwybodaeth
- Gofynnodd HFE ynghylch hygyrchedd iaith ar gyfer PISA. Eglurodd RJ y gall myfyrwyr sefyll y prawf yn y Gymraeg neu yn Saesneg ond mae angen ei sefyll yn eu prif iaith ddysgu.

Cytunwyd y gallai fod angen i'r Cymdeithion gael trafodaeth am hygyrchedd iaith y profion PISA.

Diolchodd SD i RJ am ei gyflwyniad a oedd yn llawn gwybodaeth.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd HFE adroddiad y Prif Weithredwr i'r bwrdd a diolchodd i bawb am eu gwaith yn helpu'r Academi Arweinyddiaeth drwy'r cyfnod hwn.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol

- Mynegodd RJ bryder fod yr Academi Arweinyddiaeth angen ymchwilio i amrywiaeth ehangach o leoliadau. Dywedodd HFE fod ein hysbyseb newydd am Gydymaith yn nodi'n benodol yr hoffem gael cyfranogiad yn y meysydd hynny sydd heb gynrychiolaeth ar hyn o bryd.
- Nododd CW nad oes gan rai ysgolion o bosibl y gallu i ryddhau eu pennaeth i fod yn Gydymaith
- Rhannodd CW y ffaith fod ei hysgol wedi gwneud cais am grant EIE! cyn iddi gychwyn ei swydd ac efallai y bydd angen ei hesgusodi o unrhyw drafodaethau sy'n cynnwys y prosiect EIE! o hyn ymlaen

Diolchodd SD i HFE am ei adroddiad cynhwysfawr.

4. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd PM gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2020 i'r bwrdd.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Wrth godi'r mater o wrthdaro buddiannau a'r broses o ymdrin â hynny, eglurodd PM os yw achosion o wrthdaro yn cael eu codi ymlaen llaw, byddai'r pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ymdrin â nhw ond os oeddent yn cael eu codi mewn cyfarfod bwrdd, byddai hynny yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

- Trafododd RJ pwynt 5 a'r ffordd y bydd penderfyniadau'n cael eu cofnodi. Eglurodd PM y bydd cofnod yn y cofnodion o'r drafodaeth a'r canlyniad.
- Rhannodd PM y ffaith fod Chris Lewis, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, wedi'i wahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod ei risgiau ar y gofrestr risgiau
- Eglurodd HFE fod Kirsty Payne, y Rheolwr Busnes, wedi cyfarfod â'r archwilwyr mewnol a'u bod wedi cytuno i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Cynhelir gweithdy archwilio hefyd a bydd Tegwen Ellis a Chris Lewis yn cael gwahoddiad iddo

Cytunodd y bwrdd ar y camau gweithredu canlynol:

- **Maen nhw'n hapus gyda'r polisi ar wrthdaro buddiannau a gellir ei gyhoeddi ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth. Bydd angen ei ddosbarthu i'r Bwrdd hefyd**
- **Bydd llwyddiannau'r Academi Arweinyddiaeth yn cael eu hadolygu gyda'r archwilwyr mewnol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**
- **Dileu pwynt bwled olaf y datganiad Llywodraethu**
- **Hoffai RJ newid 'Gair o Groeso ac Ymddiheuriadau' i 'Gair o Groeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldebau' yn y datganiad llywodraethu i nodi'n benodol bod yr ymddiheuriadau ar gyfer absenoldebau**
- **Ychwanegu enwau aelodau'r ddau bwyllgor at y datganiad llywodraethu**

5. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / AD

Cyflwynodd JG gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid / AD a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr i'r bwrdd.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- **Ni chafwyd ceisiadau priodol ar gyfer y rôl Swyddog Cyfathrebu ac mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn**
- **O fis Ebrill 2020, bydd ffrwd y gyllideb yn cael ei gyfuno a bydd angen adran ar wahân ar gyfer y gyllideb Cymdeithion yn adroddiad y gyllideb.**

Cytunwyd i ddosbarthu'r polisïau TG er mwyn cael cymeradwyaeth y bwrdd.

6. Y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio Prif Weithredwr

Rhoddodd SD y wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am recriwtio ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Cafwyd 4 cais a rhagwelir y derbynnir mwy.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd rhestr fer yn cael ei llunio wythnos nesaf a chynhelir cyfweliadau dros ddau ddiwrnod. Bydd diwrnod un yn ddiwrnod o weithgareddau a chynhelir y cyfweliad ffurfiol ar yr ail ddiwrnod.
- Nododd RJ y bydd angen i'r Panel Penodiadau sicrhau trywydd atebolrwydd.

Cytunwyd ar y camau canlynol:

- **Bydd angen i'r Panel Penodiadau egluro'n ysgrifenedig y broses a'r ffordd y maent wedi cyrraedd eu penderfyniad penodi, rhag ofn y bydd unrhyw ôl-effeithiau**
- **Bydd y Panel Apeliadau, os oes angen, yn craffu ar y broses a gynhaliwyd**
- **Wrth lunio rhestr fer, bydd yn rhaid i'r pwyllgor gytuno ar ddyddiad cychwyn a chyflog er mwyn hysbysu'r ymgeiswyr yn ystod y cyfweliad**

7. Adolygu perfformiad a chontractau aelodau staff

Cychwynnodd SD drafodaeth am gontractau staff yr Academi Arweinyddiaeth. Oherwydd bod contract y Prif Swyddog Gweithredol a chontract y swyddog cyfathrebu wedi cael eu gwneud yn rhai parhaol, cytunodd y bwrdd y byddai angen adolygu contractau staff hefyd gan eu bod yn gontractau dros dro ar hyn o bryd. Eglurodd SD ei bod yn disgwyl clywed gan Tanya Wigfall o Lywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r trosglwyddiad. Bydd y cyngor hwn yn mynd i'r grŵp Cyllid/AD i'w gytuno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd fel mater o frys.

Eglurodd SD fod telerau swyddi aelodau'r bwrdd yn dod i ben ym mis Ebrill 2021, ac mae SD yn gofyn am gyngor gan Gymwysterau Cymru er mwyn ailbenodi a mynd ati i benodi aelodau newydd o'r Bwrdd fesul tipyn. Roedd SD wedi cael ei hadolygiad arfarnu â Steve Davies a oedd yn cynrychioli'r Gweinidog. Nododd SD fod Steve Davies wedi gofyn iddi aros yn Gadeirydd y bwrdd er mwyn sicrhau bod y broses o adnewyddu Aelodaeth y Bwrdd yn ddi-dor ac amserol. Nododd SD ei bod yn derbyn y cynnig. Mae hyn wedi'i gyfathrebu i'r Gweinidog. Mynegodd HFE ei hyder yn y ffaith fod y Bwrdd mewn sefyllfa gref i gynnal gweledigaeth a gwerthoedd yr Academi Arweinyddiaeth drwy ddatblygu llythyr cylch gwaith newydd a thrwy benodi Prif Weithredwr newydd.

8. Eitemau ar gyfer yr agenda yn y dyfodol a gair i gloi

Eglurodd HFE fod arfarniadau blynyddol pob aelod staff wedi'u cynnal a bod pob un wedi pasio ei gyfnod prawf.

Cynhelir trafodaeth am y Strategaeth Gyfathrebu wedi i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfathrebu newydd gael eu penodi.

Cytunodd y Bwrdd y bydd y Prif Weithredwr newydd yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod nesaf y Bwrdd.

Diolchodd SD i bawb am fynychu'r cyfarfod a daeth ei ben am 12:51.

Log Gweithredu

Rhif.		Perchnogi	Terfyn Amser	Statws
12	NAEL i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu ambell i hanes achos	HFE	Medi 2019	Ar y gweill
83	Gwirio'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol	SD	Medi 2019	Ar y gweill
84	Adolygiad blynyddol o gylch gorchwyl	SD	Gorffennaf 2020	Ar y gweill
101	Nodi risgiau allweddol i'w rhannu â Llywodraeth Cymru	Pawb	Tachwedd 2019	
105	Cynnwys yn yr agenda wahoddiad i Tegwen Ellis fynychu cyfarfod o'r bwrdd yn y dyfodol i gyflwyno ei gwaith Doethuriaeth hyd yma	KP	Medi 2020	
106	Pob agenda a'r holl gofnodion i fod yn ddwyieithog yn y dyfodol	KP	Ionawr 2020	Ar y gweill
107	Cyhoeddi cofnodion y bwrdd ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth	KP	Ionawr 2020	Ar y gweill
111	Ymchwilio i rwydweithiau i ganfod cysylltiadau posibl yn Lloegr	Pawb	Ionawr 2020	Ar y gweill
113	Penaethiaid y ddau is-bwyllgor i gyfarfod a thrafod strategaeth ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth	JG a PM	Ionawr 2020	
115	Creu ail gofrestr risg ar gyfer risgiau gweithredol	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Ionawr 2020	
116	Diwygio cofnodion blaenorol	OS	Mawrth 2020	Cwblhawyd
117	Cysylltu â Tanya Wigfall am gysylltiadau â Lloegr	HFE	Mawrth 2020	Cwblhawyd
118	Rhannu gwybodaeth am iaith y profion PISA gyda 2 Gydymaith	OS	Mawrth 2020	
119	Rhannu polisi gwrthdaro buddiannau gyda'r bwrdd i'w adolygu'n derfynol	RJ	Ionawr 2020	Cwblhawyd
120	Adolygu llwyddiannau'r Academi Arweinyddiaeth gyda'r archwilwyr	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Chwefror 2020	
121	Diwygio'r datganiad Llywodraethu fel yr amlinellwyd yn y cofnodion	OS	Mawrth 2020	
122	Dosbarthu polisïau TG	KP	Mawrth 2020	Cwblhawyd
123	Ysgrifennu proses ar gyfer penodi Prif Weithredwr a chael y pwyllgor apeliadau i gytuno arni	Pwyllgor Penodiadau	Chwefror 2020	Cwblhawyd
124	Penderfynu'n derfynol ar	Pwyllgor	Chwefror 2020	Cwblhawyd

	ddyddiad cychwyn a chyflog ar gyfer ymgeiswyr y swydd Prif Weithredwr	Penodiadau		
125	Creu strategaeth gyfathrebu unwaith y penodir swyddog cyfathrebu	Pawb		
126	Gwahodd y Prif Weithredwr i gyfarfod nesaf y bwrdd os gwneir penodiad	SD	Mawrth 2020	Cwblhawyd